

ATODIAD 3

ARBEDION

1. Mae Cyngor Gwynedd wedi gwireddu dros £32.8m o gynlluniau arbedion ers 2015/16, ond eto eleni, mae argyfwng Covid-19 wedi cael effaith ar allu'r adrannau i wireddu nifer o'u cynlluniau.
2. Mewn blynyddoedd blaenorol nid oedd y grant yr oeddem wedi bod yn ei dderbyn oddi wrth Lywodraeth Cymru yn ddigonol i gwrdd â chwyddiant, a gan fod galwadau mewn amrywiol feysydd fel gofal oedolion a phlant yn cynyddu hefyd, roeddem wedi bod mewn cylch parhaus o orfod darganfod arbedion.
3. Oherwydd hynny, tra byddai yna gyfleoedd cyfyngedig i geisio darganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd, roeddem bellach wedi cyrraedd sefyllfa lle y byddai unrhyw angen am arbedion o sylwedd yn debygol o olygu toriadau i wasanaethau.
4. Mae'r setliad refeniw a chyfalaf llywodraeth leol drafft ar gyfer 2022 i 2023 yn rhoi cynnydd arwyddocaol yng ngrant Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol. Mae hynny'n rhoi mwy o hyblygrwydd i ni nag mewn blynyddoedd blaenorol i adolygu'r rhaglen arbedion.
5. Cyflwynwyd adroddiad Trosolwg Arbedion i gyfarfod Cabinet ar 18 Ionawr 2022. Penderfynodd y Cabinet dderbyn y wybodaeth yn yr adroddiad a nodi'r cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2021/22 a blynyddoedd blaenorol. Nodwyd hefyd bod effaith Covid-19 wedi cyfrannu at lithriad yn y rhaglen arbedion, gan fod y Cyngor wedi rhoi blaenoriaeth i ddiogelu iechyd a bywydau pobl Gwynedd mewn ymateb i'r argyfwng.

[Adroddiad](#)

[Atodiad 1, Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2015/16 i 2020/21 fesul Adran](#)

[Atodiad 2, Trosolwg Cynlluniau Arbedion 2021/22](#)

[Atodiad 3, Cynlluniau Arbedion 2022/23](#)

6. Roedd gwerth £2,375,000 o arbedion wedi eu cynllunio i'w gwireddu yn 2022/23, a hynny'n gyfuniad o arbedion oedd wedi llithro o flynyddoedd blaenorol a chynlluniau newydd. Ar ôl ystyried y sefyllfa, penderfynodd y Cabinet fel a ganlyn o ran y cynlluniau hynny:
 - cydnabod fod y sefyllfa bellach wedi newid cymaint fel na ellir cyflawni cynlluniau arbedion gwerth £489,750 gan eu dileu o'r gyllideb, sef
 - Adolygiad Dechrau i'r Diwedd (Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd) gwerth £279,750
 - Trosglwyddo meysydd chwarae i eraill (Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol) gwerth £210,000
 - symud y proffil cyflawni ar gyfer cynlluniau gwerth £1,290,250 i 2023/24 a blynyddoedd dilynol.

Mae'r tabl isod yn crynhoi effaith y penderfyniad:

	Gwreiddiol £	Gohirio i 2023/24 neu hwyrach £	Dileu £	Rhaglen Ddiwygiedig £
Cynlluniau 2022/23	2,375,000	1,290,250	489,750	595,000

7. Canlyniad hyn yw fod gwerth £595,000 o gynlluniau arbedion yn weddill i'w tynnu o gyllidebau'r adrannau yn **2022/23**. Mae'r cynlluniau hyn wedi'u cymeradwyo mewn blynyddoedd blaenorol ac eisoes wedi derbyn cymeradwyaeth gan y Cyngor, ac felly ddim yn destun penderfyniad eleni. Maent hefyd wedi dilyn prosesau statudol priodol, ac fe'i rhestrir isod **er gwybodaeth**.

Arbediad	Swm £
ADRAN AMGYLCHEDD	
Darparu pwyntiau gwefru ceir trydan mewn meysydd parcio	12,500
ADRAN CEFNOGAETH GORFFORAETHOL	
Gostyngiad yn y nifer o Gynghorwyr	100,000
ADRAN CYLLID (a T.G.)	
Denu incwm ychwanegol drwy Asiantaeth Casglu Mewnol	25,000
ADRAN OEDOLION, IECHYD A LLESIANT	
Datblygu 3 prosiect Tai Gofal Ychwanegol arall yng Ngwynedd (Ardal Pwllheli, Ffestiniog, De Meirionnydd)	100,000
ADRAN ECONOMI A CHYMUNED	
Buddsoddi mewn gwelliannu fyddai yn gwneud Neuadd Dwyfor yn fwy effeithlon gan baratoi i edrych am fodel amgen i'r dyfodol	70,000
ADRAN PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL	
Rhesymoli gweithdai Fflyd o 3 i 2 yn y Sir	32,500
Newid Teledu Cylch Cyfyng sydd gyda gofalwyr yn monitro i gyfundrefn 'heb ofalwyr'	105,000
Newid trefniadau gwaith casglu gwastraff i shifftiau a chylchdeithiau llai (sydd o bosib yn golygu newid diwrnod casglu i drigolion)	150,000
CYFANSWM ARBEDION 2022/23	595,000

8. Mae'r Llywodraeth eisoes wedi nodi y bydd y cynnydd yn y setliad yn llawer llai ar gyfer 2023/24 a 2024/25 felly disgwylir y bydd angen paratoi i weithredu'r cynlluniau hynny sydd wedi cael eu llithro eleni.